



© Hawlfraint y Goron CBHC



Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

Adroddiad Blynyddol 2024 – 2025



unesco

Tirwedd Llechi Gogledd
Orllewin Cymru
Cofrestrwyd ar Restr
Treftadaeth y Byd yn 2021



SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

Rhagair

Yr Arglwydd Dafydd Wigley Cadeirydd, Bwrdd Partneriaeth Llechi Cymru

Mynd â'r Maen i'r Wal



Lle yr aeth y 12 mis diwethaf? Yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2024, roeddwn yn pwysleisio'r angen am amser i wireddu cynlluniau a fyddai'n dod a buddion i gymunedau a busnesau Gwynedd yn sgil y dynodiad Safle Treftadaeth Byd.

Eleni, wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn a aeth heibio, rwy'n ymfalchïo yn y gwaith sydd wedi ei weld ar draws y tirlun llechi a gobeithio y cewch chi flas ar hynny yn yr adroddiad hwn a chytuno ein bod wirioneddol fel partneriaid yn mynd â'r maen i'r wal.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu Partneriaeth Llechi Cymru - y mae gennyf y ffrainc a'r anrhydedd o'i chadeirio; yn ymgysylltu â threfniadau llywodraethu a gweithredu newydd er mwyn adlewyrchu lleisiau holl-bwysig ein cymunedau a'n trefeddiannwyr yn y strwythur rheoli. Bu cynnal 2 weithdy thematig yn hynod ddefnyddiol wrth sicrhau lleisiau a mewnbwn i flaenoriaethau presennol y bartneriaeth – sef dehongli, marchnata a chyfathrebu Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru i'n broydd a'r byd.

Mae gweld ein bod bellach wedi denu buddsoddiad o dros £35m yn ein hardaloedd yn brawf bod cael y dynodiad yn arwain at welliannau sylweddol ar draws yr ardal fydd yn gweithredu ar ein gweledigaeth fel partneriaeth o 'amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu rhinweddau arbennig y ardal er mwyn atgyfnerthu hynodrwydd diwylliannol a chryfhau'r iaith Gymraeg, a dod yn sbardun pwysig i adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol'.

Er bod llawer o brosiectau adeiladu ar waith – gyda nifer ohonynt yn cael eu cwblhau dros y 2 flynedd nesaf, mae brwdfrydedd ac awch ein cymunedau a'n busnesau i ymgysylltu gyda'u treftadaeth a bod yn ran o'r stori llechi yn heintus. Rwy'n hynod falch bod ein gweithgareddau fel partneriaid ar gyfer cymunedau a busnesau yn clymu ein broydd llechi at ei gilydd, i ddathlu eu gwahaniaethau – ond hefyd yr hyn sy'n gyffredin rhyngddynt. Mae'r gweithgareddau hyn yn llynyn arian hanfodol er mwyn creu un Safle Treftadaeth Byd sy'n parchu a dathlu ein gorffennol wrth greu cyfleoedd, bwrllwm a balchder gan edrych i'r dyfodol

Er ein bod yn Safle Treftadaeth Byd newydd, mae'r gydnabyddiaeth a'r enw da sydd gan Llechi Cymru y tu hwnt i'r ardal yn dyst ein bod yn cyflawni gwaith arloesol a phwysig iawn yma yng Ngwynedd ac Eryri yn nhermau adborth anffurfiol ar gyfer datblygiadau, ymgysylltu cymunedol a sicrhau llais i bawb yn nyfodol y Safle.

Hoffwn nodi fy niolch i bawb sydd wedi cefnogi ein gwaith dros y 12 mis diwethaf. Yn arbennig diolch i holl bartneriaid strategol Llechi Cymru am eich cydweithrediad didwyll a'ch cefnogaeth amhrisiadwy.

Gwelwyd gweithgareddau pwysig i gofnodi nodweddion o'r tirlun ac enwau lleol gan y Comisiwn Brenhinol a Pharc Cenedlaethol Eryri. Parhaodd poblogrwydd cyrsiau Treftadaeth



Byd ac Archaeoleg gan Brifysgol Bangor a'r bartneriaeth newydd sy'n datblygu gyda pherchnogion Chwarel Dorothea i roi profiadau byw i fyfyrwyr. Gwelwyd datblygiadau cyffroes gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghastell y Penrhyn mewn cydweithrediad gydag Amgueddfa Cymru wrth i ni weld crefftwyr yr amgueddfa yn hollti a naddu llechi o fewn i furiau'r castell – arbennig. Ac mae ein diolch hefyd i Heneb, yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol a fu'n cefnogi ein gwaith LleChi LleNI. Wrth gwrs rhaid diolch am yr holl gefnogaeth sydd wedi ei roi gan Cadw, Llywodraeth Cymru – boed yn arbenigedd, yn gyngor neu'n gyllid i gefnogi ein gwaith. Yn olaf, diolchaf i Gyngor Gwynedd a'i dîm o swyddogion am yr holl weithgaredd, y bwrlwm a'r brwdfrydedd sydd wedi cynnal Llechi Cymru dros y flwyddyn brysus hon.



Dafydd Wigley

Yr Arglwydd Dafydd Wigley

Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Llechi Cymru



AMGUEDDFA
CYMRU



Cadw



Cynnwys



1. Cefndir.....	1.
2. Llywodraethu a Rheoli.....	2.
3. Gofalu am Dirwedd Llechi Cymru.....	4.
4. Datblygiad Cynaliadwy yn Nhirwedd... Llechi Cymru	12.
5. LleCHI LleNI: Ein Safle Treftadaeth y.... Byd, Ein Balchder, Ein Dyfodol	23.
6. Mwynhau Tirwedd Llechi Cymru.....	29.
7. Dysgu am Dirwedd Llechi Cymru.....	36.
8. Gwybodaeth Bellach.....	39.

1. Cefndir

1



Mae pedair mlynedd bellach ers i ni sicrhau dynodiad Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

Rydym wedi derbyn y dynodiad gan UNESCO yn seiliedig ar ddatganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol, ac mae'r datganiad yma yn greiddiol i'n holl waith, ac yn llywio penderfyniadau y Bwrdd Partneriaeth ynglŷn â datblygiadau, buddsoddiadau, cadwraeth a blaenoriaethau.

Datganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol Llechi Cymru:


Mae Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn enghraifft eithriadol o dirwedd ddiwylliannol ddiwydiannol a ffurfiwyd drwy gloddio llechi a mwynogloddio tanddaearol ar raddfa eang, a thrwy weithio a chludo llechi ar gyfer marchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Bu'r diwydiant hwn, yn enwedig rhwng 1780 a 1940, yn arweinydd byd-eang ar gynhyrchu llechi to; fe agorwyd chwareli a chloddfeydd llechi ledled y byd yn sgil trosglwyddiad diwylliannol technoleg a sgiliau; ac fe drawsffurfiwyd yr amgylchedd a'r ffordd o fyw i'r rhai hynny oedd yn byw a gweithio ym mynyddoedd Eryri.

Ein nod yw gofalu am a dathlu treftadaeth y dirwedd rymus hon. Ond mae hefyd yn dirwedd fyw - lle mae pobl yn byw ac yn gweithio. Ein gweledigaeth yw adeiladu ar y statws pwysig hwn i amddiffyn ein hanes a'n treftadaeth, wrth hyrwyddo a gwella'r rhanbarth er budd cymunedau lleol a busnesau.

Gweledigaeth Llechi Cymru:

Amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu rhinweddau arbennig yr ardal er mwyn atgyfnerthu hynodrwydd diwylliannol a chryfhau'r iaith Gymraeg, a dod yn sbardun pwysig i adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol.

Cliciwch Cliciwcwch [yma](#) i weld y ddogfen enwebiad.



2. Llywodraethu a Rheoli


Caiff pob Safle Treftadaeth y Byd ei reoli gan gorff atebol, sef Cyngor Gwynedd yn yr achos hwn. Mae Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i ddenu arian craidd a chyllid allanol i ffurfio tîm o swyddogion sydd yn gweithio ar y maes gwaith Llechi, ac eleni rydym yn ffodus iawn i fod a 6 aelod dynodedig yn cydweithio o fewn y tîm, o dan arweiniad Roland Evans, Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd.

Tîm Llechi Cymru:

- Hannah Joyce (Rheolwr Rhaglenni Adfywio Llechi Cymru)
- Dan Amor (Cydylynydd Treftadaeth Byd Gogledd Orllewin Cymru)
- Amy Jones (Rheolwr Prosiect Llewyrch o'r Llechi)
- Lucy Thomas (Rheolwr Prosiect LleCHI LleNI)
- Bet Huws (Swyddog Dehongli ac Ymgysylltu Cymunedol LleCHI LleNI)
- Ffion Gwyn (Swyddog Dysgu a Datblygu Sgiliau LleCHI LleNI)

Mae Bwrdd Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru yn gyfrifol am redeg y safle ar lefel strategol. Fe benderfynwyd addasu strwythur y bartneriaeth a'i weithredu o 2025 ymlaen gyda'r amcan o roi llais i bawb yn rheolaeth y Safle Treftadaeth y Byd trwy sicrhau cyfleoedd i gymunedau gael cynrychiolaeth ar ein Bwrdd Partneriaeth a rhoi cyfle i gymunedau, busnesau, tirfeddianwyr a phartneriaid strategol i fynychu cyfarfodydd o'r Is-Grwpiau perthnasol.

Strwythur llywodraethu Llechi Cymru:



Mae Is-Grŵp Sgiliau ac Addysg wedi ei sefydlu, er mwyn cynnig fforwm i unigolion a sefydliadau yn y maes addysg ddod at ei gilydd i sicrhau cyd-blethiant rhwng gweithgareddau, ac adnabod bylchau yn y ddarpariaeth addysgiadol ym maes llechi y dylid gweithio i'w llenwi.


Fel rhan o'r strwythur newydd, mae cyfleoedd i gynnal gweithdai thematig pan mae aelodau yn teimlo fod angen rhoi sylw penodol i faterion. Eleni, rydym wedi cynnal dau weithdy, un ar ddehongli y tirwedd llechi, ac un dilynol ar farchnata a marchnadoedd.

Am fwy o wybodaeth am strwythur rheoli y Safle Treftadaeth y Byd ac i weld rhestr gyfredol o aelodau'r Bwrdd Partneriaeth, cliciwch [yma](#).

Cliciwch [yma](#) i weld cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth.

Mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn cael ei reoli trwy ein cynllun rheoli, mae cynllun rheoli y Safle Treftadaeth y Byd yn rhedeg o 2020 i 2030. Gan ein bod bellach wedi cyrraedd canolbwynt cyfnod y ddogfen, mae'r Bwrdd Partneriaeth yn y broses o gynnal adolygiad ac fe fydd adroddiad yn cael ei rhyddhau yn gynnar yn 2026. Bydd yr adolygiad yn gyfle i ddiweddarau'r manylion i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu gwybodaeth gywir am ein hardal heddiw.

Gellir gweld y cynllun rheoli [yma](#).



3. Gofalu am Dirwedd Llechi Cymru



Mae grŵp Cadwraeth a Chynllunio Llechi Cymru yn cyfarfod yn chwarterol, gan drafod datblygu a gweithredu mesurau cadwraeth a gwarchodaeth priodol, yn ogystal a materion polisi cynllunio.

Mae'r sefydliadau a gynrychiolir ar y grŵp yn cynnwys yr awdurdodau cynllunio lleol (Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Cadw a Heneb. Un o flaenoriaethau y Safle yw i sicrhau etifeddiaeth ffisegol y dirwedd llechi hanesyddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ond, rydym hefyd yn cydnabod fod hon yn dirwedd fyw, sy'n cyfrannu at les economaidd a chymdeithasol ein cymunedau.

Ni fwriedir i'r dynodiad Treftadaeth y Byd atal newid yn y dirwedd, ond yn hytrach mae'n fodd o gefnogi a rheoli newidiadau cadarnhaol, sydd yn cael eu datblygu gyda sensitifrwydd tuag at dreftadaeth arbennig yr ardal.

Adborth Anffurfiol ar Ddatblygiadau Arfaethedig yn y Safle Treftadaeth y Byd

Rhoddir cyfle i datblygwyr dderbyn adborth anffurfiol ar ddatblygiadau arfaethedig yn, neu'n agos at y Safle Treftadaeth y Byd, cyn dechrau ar y broses gynllunio ffurfiol.

Mae'r sesiynau yn wirfoddol, a hyd yma derbyniwyd adborth cadarnhaol gan rheiny sydd wedi manteisio ar y cyfle. Mae'r sesiynau yn ffordd effeithiol o dynnu cynrychiolwyr o gefndiroedd cynllunio, cadwraeth, datblygu economaidd ac ymgynghori cymunedol ynghyd i gynnig adborth proffesiynol ar syniadau yng nghyd destun y Safle Treftadaeth y Byd.

Mae amryw o sefydliadau o'r sectorau preifat a chyhoeddus wedi manteisio ar y sesiynau hyn. Yn ystod y flwyddyn, bu i ni gynnal 3 sesiwn adborth anffurfiol.

Am fwy o wybodaeth am y broses, cliciwch [yma](#).

Pwy ddylai drafod gyda ni



- nid ydym yn disgwyl datblygiadau raddfa fechan drafod gyda ni (e.e. estyniadau domestig o fewn gosodiad trefi/pentref)
- os ydych yn teimlo fod gan eich datblygiad y potensial i effeithio ar y Safle Treftadaeth y Byd a/neu ei osodiad (mewn modd positif neu negyddol)
- Gall swyddog cynllunio awgrymu y byddai'n ddefnyddiol i chi gysylltu a ni
- Gall datblygwyr neu asiantau gysylltu a ni

Pryd dylid trafod gyda ni



- mae'n bwysig i'r trafodaethau anffurfiol yma ddigwydd cyn i'ch datblygiad fynd i mewn i'r broses cynllunio ffurfiol (cyn y broses cyn-ymgeisio)
- Unwaith mae eich datblygiad yn y system gynllunio, fe fydd y swyddogion oedd yn medru cynnig adborth anffurfiol trwy'r broses yma bellach yn ymgynghori ffurfiol ac o ganlyniad yn methu cynnig adborth yn y modd yma

Sut i drafod gyda ni



- cysylltu gyda llechi@gwynedd.llyw.cymru
- gyrru dogfen trosolwg yn nodi unrhyw wybodaeth all fod yn ddefnyddiol i hwyluso trafodaeth (e.e. lleoliad, maint, disgrifiad, deunyddiau adeiladu, pwrpas y datblygiad, sut mae'n cyfrannu i'r weledigaeth ac amcanion)
- Mynychu cyfarfod gyda swyddogion a chynrychiolwyr i drafod y syniad a derbyn adborth anffurfiol

Beth i drafod gyda ni



- Nid maint / gwerth y datblygiad sydd yn bwysig, ond yr effaith posib ar y Safle Treftadaeth y Byd a'i osodiad.
- Syniadau cychwynnol / cysyniadol yn unig
- cyfle i sgôpio syniadau
- mae'n broses anffurfiol a dewisiol, bwriadir i'r broses fod yn galluogi trafodaeth yn hytrach na chreu rhwystr



Llyfrynnau Cynghorol Llechi

Mae dau lyfryn wedi cael eu creu i geisio rhannu gwybodaeth ymarferol gyda thrigolion, tirlfeddianwyr a datblygwyr am nodweddion arbennig y tirwedd a chymunedau llechi.

Os oes gennych ddiddordeb yn natur unigryw trefi, pentrefi a chymunedau sy'n ffurfio tirwedd llechi Gogledd Orllewin Cymru, mae'r llyfryn 'Gofal a Chadwraeth' yn werth ei ddarllen. Mae wedi'i anelu at berchnogion eiddo, ac mae'n amlinellu nodweddion treftadaeth cyfoethog ein cymunedau llechi, ac yn cynnig cyngor ymarferol ar warchod ac adfer cymeriad ein adeiladau er mwyn diogelu cymeriad hanesyddol pwysig ein cymunedau llechi. Ceir trosolwg cryno o bolisiau a phrosesau cynllunio, ynghyd â gwybodaeth am ble i ganfod canllawiau pellach. I weld y canllaw, cliciwch [yma](#).



Os oes gennych ddiddordeb yn nhirweddau amrywiol ardaloedd llechi ar draws Cymru, mae ein llyfryn 'Gofalu am Dirweddau Llechi Cymru', hefyd werth ei weld. Mae'n crynhoi hanes y diwydiant llechi, yn disgrifio beth sy'n gwneud tirweddau llechi yn arbennig, ac yn cynnig arweiniad ar sut i ofalu am y lleoedd pwysig hyn. Mae wedi'i ysgrifennu ar gyfer pob un ohonom sy'n byw ac yn gweithio yn y tirweddau hyn, neu sy'n dod i ymweld. I weld y fersiwn ar-lein, cliciwch [yma](#).



Cynllunio

O ran Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, y gofyn cyfreithiol yw fod penderfyniadau ar geisiadau cynllunio'n cael eu gwneud yn unol a'r Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi ei fabwysiadu. Y cynlluniau datblygu lleol sydd wedi eu mabwysiadu ar gyfer y ddau Awdurdod Cynllunio yma yw: Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd a Môn) 2011-2026 a: Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2017-2031.



Mae'r ddau gynllun uchod yn cynnwys polisiau cynllunio sydd yn benodol yn ymwneud a datblygiadau o fewn neu'n effeithio ar osodiad a/neu olygfeydd arwyddocaol i mewn neu allan o safleoedd treftadaeth byd.

Er mwyn rhoi arweiniad mwy manwl i ddarpar ymgeiswyr, cynghorwyr a swyddogion cynllunio, mae Canllaw Cynllunio Atodol - Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru wedi cael ei baratoi ar y cyd gan y ddau awdurdod cynllunio.

I weld y Canllaw Cynllunio Atodol, cliciwch [**yma**](#).

Er bod y statws UNESCO yn ddynodiad ffurfiol ar yr ardal fel Safle Treftadaeth y Byd, mae'r warchodaeth oedd eisoes yn bodoli ar y tirwedd llechi trwy statws y Parc Cenedlaethol a'r Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol yn sylfaen i ddiogelu ein tirwedd a nodweddion pwysig.

Ers yr arsgrefiad mae'r mwyafrif o'r ceisiadau cynllunio sydd wedi eu cyflwyno o fewn a/neu ger yr ardal Safle Treftadaeth y Byd wedi bod yn ardal awdurdod cynllunio Cyngor Gwynedd, sydd yn adlewyrchu natur mwy trefol yr ardal. Allan o'r **108** o geisiadau a wrthodwyd **3** cais yn unig oedd yn cynnwys rhesymau gwrthod oedd yn cyfeirio at y Safle Treftadaeth y Byd. Er hyn, mae angen pwysleisio hyd yn oed heb y dynodiad y byddai'r **3** cais wedi eu gwrthod beth bynnag.

Yr hyn sydd yn bwysig gyda pob cais cynllunio yw bod yr wybodaeth a'r dystiolaeth berthnasol yn cael ei gyflwyno gyda'r cais, ac anogir darpar ymgeiswyr i fanteisio ar y gwasanaeth cynnig cyn cyflwyno cais a ddarperir gan y ddau awdurdod.

Enwau Lleoedd

Mewn partneriaeth, mae'r Comisiwn Brenhinol gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, wedi gynnal gweithdai enwau lleoedd yn Abergynolwyn, Corris, Talsarnau, Plas Tan y Bwlch ac Waunfawr. Hyd yma, mae 6,299 o enwau lleoedd wedi'u uwchlwytho i'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol o ganlyniad i'r prosiect.



Delweddau: © Hawlfraint y Goron CBHC








Arolygodd y Comisiwn Brenhinol chwareli canolog a gorllewinol y tirwedd llechi o'r awyr ddwywaith yn ystod y flwyddyn; ym mis Mehefin cofnodwyd llawer o'r prif chwareli gan gynnwys y rhai o amgylch Blaenau Ffestiniog, Nantlle a Bwlch y Ddwy Elor o'r awyr, ac ym Mis Hydref cafwyd cyfle i gofnodi delweddau ysbennnydd o sawl chwarel gan gynnwys chwarel Dinorwig a'r rhai o amgylch Yr Wyddfa. Mae delweddau bellach ar gael ar-lein yn www.coflein.gov.uk wedi'u cysylltu â chofnodion unigol o'r chwareli hynny.



Delweddau: © Hawlfraint y Goron CBHC

Mae'r Comisiwn Brenhinol wedi cynnal arolwg yng Nghapel Jerwsalem y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig (bellach Eglwys Bresbyteriaidd Cymru), Bethesda, fel rhan o'n prosiect parhaus i ymchwilio a chofnodi Capeli Anghydfurfiol. Mae'n un o ddim ond 5 capel rhestredig Gradd I yng Nghymru ond, fel llawer o gapeli eraill, mae'n gynyddol fregus. Gellir gweld rhagor o wybodaeth **yma**.



Delweddau: © Hawlfraint y Goron CBHC

Cynlluniau Cadwraeth

Mae cynlluniau cadwraeth yn cael eu gwireddu trwy gyllid sydd wedi ei sicrhau trwy Cyngor Gwynedd, ac hefyd gan bartneriaid ar draws y tirwedd llechi. Mae rhai esiamplau o gynlluniau cadwraeth wedi eu nodi isod.

Ysbyty Chwarel Penrhyn, Bethesda

Yn dilyn gwaith brys ar y strwythur yn 2024, mae cynllun uchelgeisiol ar waith ar y safle ar hyn o bryd i sicrhau sefydlogrwydd y strwythur yn y tymor hir, gyda'r weledigaeth y bydd y safle yn medru bod yn hygyrch ac agored i bawb yn dilyn cwblhau'r gwaith, yn ogystal a chynnig cyfle i ddehongli'r safle.



Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd trwy gynllun Llewyrch o'r Llechi wedi ei ariannu trwy Llywodraeth y DU, Cadw a Welsh Slate (Breedon).

Mae ymweliadau safle wedi eu cynnal mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Ogwen i wahodd trigolion lleol i ymweld a'r strwythur, i ddysgu am ei hanes ac i ddeall mwy am y technegau cadwraeth sydd ar waith i ddiogelu'r strwythur. Fe fydd cyfleoedd pellach am ymweliadau a phrofiadau ymarferol ar y safle dros y misoedd nesaf.



Boston Lodge, Rheilffordd Ffestiniog, Porthmadog

Yn 2025 daeth prosiect uchelgeisiol Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri at ei derfyn. Rhwng 2022 a 2025 mae gwaith ar leoliad Boston Lodge wedi achub adeiladau treftadaeth, sgiliau ac asedau. Cafodd rhai o'r adeiladau treftadaeth fwyaf arwyddocaol eu cadw/ail-greu a chrëwyd cyfleoedd i staff a gwirfoddolwyr drwy brosiect wedi ei ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Darparwyd 211 o leoliadau gwaith unigol, y rhan fwyaf ohonynt ar gyfer pobl ifanc yng Ngwynedd. Ymhlith y partneriaethau mwyaf llwyddiannus oedd y rhai gyda cholegau lleol, lle ymunodd pobl ifanc â'r tîm i ddysgu sgiliau ac ennill profiad. Gweithiodd dros 600 o wirfoddolwyr ar y prosiect, gan gyfrannu 36,000 awr o lafur. Daeth dros 120 o wirfoddolwyr newydd i weithio ar y rheilffordd, gan gynnwys llawer o wirfoddolwyr ifanc iawn a nifer dda yn bobl hŷn sydd mewn perygl o ynysu cymdeithasol. Mynychwyd 61 o weithdai i ddatblygu sgiliau traddodiadol gan fwy na 600 o bobl, sy'n golygu y bydd y sgiliau hyn bellach yn fyw i genedlaethau'r dyfodol. Yn ystod y prosiect, rhoddwyd 87 o deithiau tywys am y tro cyntaf o amgylch Boston Lodge - y gweithdai rheilffordd hynaf yn y byd; i fwy na 1000 o aelodau'r cyhoedd.






Teras Cwmorthin, Blaenau Ffestiniog

Yn Awst 2025 bu Heneb yn brysur yn gweithio efo gwirfoddolwyr lleol i gofnodi adeiladau a strwythurau yng Nghwmorthin fydd yn adnodd ar gyfer gwaith cadwraeth at y dyfodol. Gwnaethpwyd cofnod archeolegol o adeiladau yng Nghwmorthin, gan gynnwys Rhos Cwmorthin, Capel Tiberias a Thyddyn Cwmorthin gan adeiladu ar waith ardderchog oedd eisoes wedi ei wneud gan grwpiau cymunedol yn y lleoliad. Mae hyn yn rhan o brosiect LleCHI LleNI a bydd cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau cadwraeth gymunedol eraill ar draws y dirwedd llechi dros y pedair blynedd nesaf.

Trosedd Treftadaeth

Yn anffodus, mae trosedd treftadaeth yn un agwedd o rheolaeth y Safle Treftadaeth y Byd sydd yn peri gofid, ac yn rhywbeth sydd yn digwydd i raddau gwahanol ar draws y tirwedd llechi. Mae Gweithgor Trosedd Treftadaeth wedi ei sefydlu ar gyfer Gogledd Cymru, ac mae Heddlu Gogledd Cymru bellach yn rhan o'n Is-grŵp Buddion er mwyn cael cyswllt uniongyrchol gyda pherchnogion a rheolwyr safleoedd treftadaeth. Mae gwybodaeth am sut i adrodd trosedd treftadaeth wedi ei gynnwys ar wefan Llechi Cymru **yma** ac rydym yn annog unrhyw un sydd yn dyst i drosedd treftadaeth alw 999, neu unrhyw un sydd yn ymwybodol o drosedd treftadaeth i alw 111.



4. Datblygiad Cynaliadwy yn Nhirwedd Llechi Cymru



Mae gweledigaeth y Safle Treftadaeth y Byd yn ystyried datblygiad cynaliadwy fel rhywbeth sydd yn greiddiol i lwyddiant yr ardal, mae hyn yn cynnwys cefnogi tirwedd cynaliadwy sydd yn annog datblygiad economaidd a chyfleoedd i gymunedau ffynnu, tra yn cefnogi ein iaith a diwylliant, a pharchu ein treftadaeth.

Mae Is-grŵp Buddion y Safle Treftadaeth y Byd yn bartneriaeth gyda chynrychiolwyr o sefydliadau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a thrydydd sector sydd yn gweithio i geisio sicrhau bod y dynodiad Safle Treftadaeth y Byd yn dod â'r budd mwyaf i gymunedau yn y dirwedd llechi.

Ers derbyn y dynodiad, mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid wedi sicrhau dros £38 miliwn o fuddsoddiadau i'r ardal, mae hyn ochr yn ochr a'r grantiau i bartneriaid, yn ogystal a buddsoddiadau y sector breifat mewn asedau a safleoedd ar draws y dirwedd llechi.

"Ers i mi ddod yn Aelod Cabinet Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd, rwyf wedi bod yn hynod o falch o ymweld â'r tirlun llechi er mwyn gweld y datblygiadau cyffroes sydd wedi bod ar waith, y bwrlwm a'r gefnogaeth sydd yn ein cymunedau.

Mae Cyngor Gwynedd yn hynod falch o fod yn arwain ar ein Safle Treftadaeth Byd ac ar bartneriaeth Llechi Cymru ac mae gweld ein gweledigaeth yn raddol ddod yn realiti er budd cymunedau, busnesau a thirlun llechi'r ardal yn wirioneddol galonogol.

Mae hon yn stori enfawr sy'n rhoi Gwynedd ar fap y byd. Mae hon yn stori o bwys – nid yn unig ar gyfer ein ddod na'n heddiw – ond hefyd ar gyfer ein yfory a chenedlaethau'r dyfodol. Bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i geisio manteisio ar ein treftadaeth gyfoethog gyda'n holl bartneriaid er mwyn sicrhau llewyrch o'n llechi i holl gymunedau'r ardal."

Cynghorydd Richard Medwyn Hughes



**Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU**


Llewyrch o'r Llechi

Mae'r cynllun Llewyrch o'r Llechi bellach yn gweld ffrwyth llafur y gwaith caled i wireddu'r cynlluniau uchelgeisiol yn y dair gymuned llechi. Ers derbyn y dyraniad grant gan Llywodraeth y DU yn 2022, rydym wedi gweld sawl cynllun yn cael eu cwblhau ac ar waith yn cynnwys:

Hwb Ogwen

Neuadd Ogwen

Mae'r gwaith i uwchraddio Neuadd Ogwen wedi ei gwblhau, mae'r buddsoddiad wedi trawsnewid y Neuadd a sicrhau dyfodol llewyrchus a chynaliadwy iddi trwy eu galluogi i redeg rhaglen o ddigwyddiadau o'r safon uchaf trwy gydol y flwyddyn a denu perfformwyr byd-enwog gyda'r dechnoleg a safon lleoliad sydd bellach ar gael ym Methesda.



Dyweddodd Dilwyn Llwyd, Rheolwr Neuadd Ogwen "Mae'r buddsoddiad a'r gwelliannau rydym wedi'u gwneud yn gwneud i Neuadd Ogwen deimlo fel canolfan gelfyddydol a lleoliad cerddoriaeth go iawn, ac mae'r dyfodol yn edrych yn llewyrchus".

Mae'r buddsoddiad hefyd wedi galluogi'r Neuadd roi llwyfan i dalent lleol, i fudiadau gwirfoddol sydd eisiau gofod croesawgar, ac hefyd i sefydliadau proffesiynol gynnal digwyddiadau megis cynadleddau.

Yr Hen Bost

O dan arweiniad Partneriaeth Ogwen, mae uwchraddio Yr Hen Bost ar waith, mae gwaith dymchwel a pharatoi'r safle wedi ei gwblhau, a'r contractwyr wrthi yn gweithio yn galed i wireddu'r freuddwyd o greu Canolfan Dreftadaeth a Chymunedol arloesol i Ddyffryn Ogwen.



Fe fydd Yr Hen Bost hefyd yn gyfle i ddathlu treftadaeth llechi cerfiedig Dyffryn Ogwen, wrth i Ann Catrin Evans gael ei phenodi i greu gwaith celf trawiadol yn adlewyrchu yr hanes unigryw yma ar wal flaen yr adeilad.

Gwella Cysylltiad i'r Tirwedd Llechi

Mae sawl ffrwd gwaith yn rhan o'r bwriad i wella cysylltedd rhwng Dyffryn Ogwen a'r tirwedd llechi, mae pont newydd wedi ei osod ger Porth Penrhyn ac mae twnnel gwartheg newydd wedi ei adeiladu o dan Lon Las Ogwen er mwyn gwella hygyrchedd trwy dynnu cyfres o giatiau ar y llwybr.

Dros y misoedd nesaf fe fydd gwaith yn mynd rhagddi i uwchraddio Pont Sarnau...fe fydd pont newydd yn cael ei gosod, ac yna yr hen bont yn cael ei thynnu i lawr, ynghyd a gwelliannau i'r llwybr troed sydd yn cysylltu Parc Meurig gyda'r Lon Las, er mwyn gwella mynediad pobl i'r tirwedd llechi.



Hwb Dinorwig

Ailddatblygiad yr Amgueddfa Lechi

Mae safle'r Amgueddfa Lechi bellach wedi cau er mwyn ymgymryd a'r gwaith uwchraddio a chadwraeth sylweddol. Er hyn, mae presenoldeb yr amgueddfa yn parhau trwy eu cynllun Amgueddfa ar y Lôn ble gwelir presenoldeb dros dro yng Nghastell Penrhyn, Cei Llechi ac Ysbyty Chwarel, yn ogystal a nifer o weithgareddau yn y cymunedau llechi dros gyfnod Haf 2025 (fel isod, yng Nghwmystadrlllyn).



Mae'r ailddatblygiad yn gynllun uchelgeisiol, sydd yn gweld buddsoddiad o dros £28m ar safle y Gilfach Ddu er mwyn sicrhau yr Amgueddfa fel porth i'r Safle Treftadaeth y Byd, ac fel rhan o deulu Amgueddfa Cymru fydd yn medru cynnig gofod i'r casgliadau cenedlaethol yn y Gogledd.

Mae'r ailddatblygiad yn cynnwys gwaith cadwraeth sylweddol i'r Gilfach Ddu, creu gofod addysg pwrpasol, adeiladu siop a chaffi newydd ac ailfodelu gofodau cyfredol er mwyn creu mwy o ofod arddangos, gwella hygyrchedd ar draws y safle i sicrhau fod modd i bawb mwynhau bob twll a chornel o'r safle, dehongli arloesol ac oriel gasgliadau newydd.



© Amgueddfa Cymru

Gwelliannau Parc Padarn

Mae pecynnau gwaith ym Mharc Padarn wedi bod ar waith ers dros flwyddyn bellach, ac erbyn hyn mae gwaith cadwraeth sylweddol wedi ei gwblhau ar yr Inclein A1, yn cynnwys Tŷ Drwm a'i beirianwaith. Mae gwaith bron a'i gwblhau ar y bloc croeso newydd sydd yn cynnwys toiledau ac ystafelloedd newid newydd, gofod arddangos, tirlunio a dehongli, gwybodaeth cyfeirio ymwelwyr a man cyfarfod.




Mae cynlluniau ar droed ar gyfer strwythurau eraill o fewn y Parc dros y misoedd nesaf, yn cynnwys gwaith cadwraeth ac uwchraddio i adeilad Hafod Owen, yn ogystal a gwaith uwchraddio i Sied Fire Queen er mwyn creu gofod arddangos a dehongli i'r injan fydd yn dychwelyd i'r Gilfach Ddu yn dilyn cyfnod estynedig yng nghasgliad Castell Penrhyn, ac yn fwy diweddar, Rheilffordd Rheidol. Fe fydd cynllun i uwchraddio y maes parcio yn cael ei gwblhau, er mwyn cynyddu nifer y lleoedd parcio ar y safle, yn ogystal ag ailfodelu llif y maes parcio er mwyn gwella hygyrchedd a diogelwch defnyddwyr.

Hwb Ffestiniog

Yr Aelwyd

Mae gwaith uwchraddio Yr Aelwyd wedi ei gwblhau. Mae Antur Stiniog wedi trawsnewid yr adeilad yn ganolfan ieuenctid a chymunedol trawiadol sydd yn cynnig ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau chefnogaeth i bobl ifanc, yn ogystal a lleoliad o'r safon uchaf i weithgareddau cymunedol a diwylliannol. Mae'r adeilad wedi ei uwchraddio i gynnwys datblygiadau ynni arloesol er mwyn sicrhau statws Passivhaus i'r adeilad fydd yn sicrhau hyfywdra tymor hir yr adeilad i Antur Stiniog.



Siop Ephraim a Chaffi Bolton (22 a 23 Church Street)

Mae contractwyr ar y safle ers cychwyn Medi er mwyn ymgymryd a'r gwaith o uwchraddio y ddwy siop wag yng nghanol Blaenau Ffestiniog sydd wedi sefyll yn wag ers blynyddoedd maith, mae'r adeiladau yn rhan o gymeriad hanesyddol Stryd Fawr Blaenau Ffestiniog, ac mae gwarchod y nodweddion hanesyddol yma yn flaenoriaeth o fewn y cynllun. Pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau, fe fydd yr adeiladau yn cynnig gofod preswyl i deuluoedd lleol, ac unedau busnes cychwynnol yn ogystal a gofod creadigol at ddefnydd y gymuned.



Llwybr Llechwedd

Mae'r gwaith o greu llwybr cerdded, a llwybr beicio i hwyluso mynediad rhwng Blaenau Ffestiniog a chwarel Llechwedd wedi ei gwblhau. Datblygwyd y cynllun fel rhan o flaenoriaethau teithio llesol yr ardal. Mae'r cynllun wedi ei enwebu ar rhestr fer gwobrau CIHT ar gyfer y wobr Teithio Llesol 2025.



Fel rhan o'n gweledigaeth i wella canol trefi ac ardaloedd cymunedol ar hyd a lled tirwedd Llechi Cymru, rydym wedi parhau i ddatblygu nifer o brosiectau cyffrous eleni. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu ymrwymiad i gryfhau cysylltiadau cymunedol, dathlu treftadaeth leol a chynnig gwelliannau gweledol ac ymarferol i'r ardaloedd rydym yn eu gwasanaethu.

Celf Gyhoeddus

Bu'n flwyddyn brysur ac amrywiol yn y maes celf gyhoeddus, gyda sawl darn o waith celf nodedig bellach wedi'u cwblhau:

- **Porthmadog** – 4 Cerflun gan Howard Bowcott, sy'n dehongli hanes a threftadaeth y dref trwy gyfrwng deunyddiau lleol a ffurf symbolaidd. Datblygwyd y celf ar y cyd a disgyblion Ysgol Eifion Wyn, ac os edrychwch yn ofalus fel welwch cregyn wedi'i siapio gan y bobl ifanc yn rhan o'r cerfluniau.



- **Tywyn** – Gosodwyd wagen llechi yng nghanol y dref, wedi'i haddurno â geiriau gan y bardd a'r nofelydd Manon Steffan Ros, gan gysylltu'r gorffennol diwydiannol â mynegiant creadigol cyfoes. Mae ochr arall y lechen yn nodi gorsafoedd Rheilffordd Talyllyn er mwyn pwysleisio'r cysylltiad rhwng Chwarel Bryneglwys a'r allforio llechi o Dywyn.



- **Penygroes** – Cerfluniau Blondins gan yr artist Angharad Pearce Jones, yn cyfeirio'n benodol at hanes y chwareli a'r systemau cludo llechi sydd yn nodweddiadol i chwareli Dyffryn Nantlle.



- **Blaenau Ffestiniog** – Murlun mosaig llechi trawiadol ar ochr adeilad yng nghanol y dref gan gwmni toi lleol Original Roofing Company, yn adlewyrchu patrwm a gwedd y llechi'n gelfydd o car gwyllt a nodweddion tirwedd llechi eraill Bro Ffestiniog yn cynnwys y llwybr zig-zag, Y Moelwynion, tomenni llechi, cerddoriaeth, yr iaith Gymraeg.

Cafwyd mewnbwn gan y gymuned leol wrth ddatblygu'r dyluniadau celfyddydol uchod, gyda sesiynau ymgynghori a gweithdai creadigol yn sicrhau bod y gwaith celf yn adlewyrchu llais a hunaniaeth trigolion.



Mae cynlluniau celf pellach ar y gweill yn:

- **Llanberis** – Cerflun newydd gan Howard Bowcott sydd ar hyn o bryd yn y broses dylunio.
- **Bethesda** – Gosod gwaith gan Ann Catrin Evans, a fydd yn cynnwys llechi wedi'u cerfio ar wal flaen Yr Hen Bost.

Yn ogystal, rydym yn datblygu cynllun dehongli celf a fydd yn cynnwys byrddau dehongli neu cod QR digidol ar gyfer bob safle, yn ddibynnol ar safle y celf, i esbonio ystyr ac ysbrydoliaeth y celf, a'i gysylltiad i'r tirwedd llechi. Fe fydd y dehongli yn cynnwys gwybodaeth fanwl ar wefan Llechi Cymru, fydd yn bwydo i mewn i gylchdaith celf llechi i annog pobl i archwilio'r gweithiau mewn cyd-destun hanesyddol ac yn creu cyfle i bobl grwydro a chyfrannu at yr economi leol.

Mae Cronfa Llewyrch o'r Llechi wedi hefyd ariannu 2 furlun:

- **Blaenau Ffestiniog** – Bwriad i osod murlun ar adeilad 'Yr Aelwyd' a fydd yn ymddangos dim ond pan fydd y wal yn wlyb, gan greu profiad rhyngweithiol a dirdynol.
- **Tregarth** – Murlun o injan wedi'i leoli ar y Ganolfan Gymunedol, gan yr Artist Darren Evans.



Arwyddo

Mae cynllun i osod arwyddion cyfeirio cerddwyr newydd wedi'u cwblhau yn:

- Penygroes
- Tywyn

Ac ar waith yn:

- Porthmadog
- Blaenau Ffestiniog
- Llanberis
- Bethesda



Mae'r cynllun arwyddo'n elfen allweddol o ledaenu ac atgyfnerthu brand Llechi Cymru, tra'n sicrhau bod hunaniaeth lleol yn cael ei chynnal a'i chryfhau trwy ddefnydd o balet lliwiau llechi lleol ac arddull sy'n adlewyrchu'r gymuned. Mae'r arwyddion hyn wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer cerddwyr ac i annog pobol i grwydro o amgylch y trefi llechi. Edrychwn ymlaen at gyflwyno arwyddion croeso i'r trefi llechi yn ystod y misoedd nesaf fel rhan o'r datblygiad parhaus.

Gwelliannau Isadeiledd

Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn isadeiledd lleol, gyda'r gwelliannau canlynol wedi'u cwblhau neu ar y gweill:

- Binau a meinciau clyfar newydd mewn lleoliadau strategol. Mae rhai meinciau'n cynnwys pecynnau sain, gan ddarparu hanes neu straeon lleol drwy gyfrwng sain.
- Ailwynebu troedffyrdd a ffyrdd i wella diogelwch a hygyrchedd.
- Llwybr pren newydd yn Llanberis, gan wella mynediad at lwybrau o amgylch Llyn Padarn.
- Pwyntiau gwefru cerbydau trydanol fel rhan o'n hymrwymiad at gynaliadwyedd.
- Byrddau picnic, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â mentrau cymunedol megis y rhai a ddatblygwyd ym Mharc Padarn.
- Byrddau gwybodaeth a chynllun dehongli sy'n cysylltu'r gwelliannau â hanes a threftadaeth yr ardal.



Cynlluniau Cymunedol

Mae nifer o gynlluniau cymunedol hefyd wedi'u cefnogi:

- Blaenau Ffestiniog – maes chwarae aml-ddefnydd newydd sbon, wedi'i gynllunio i gefnogi gweithgareddau ieuencid a chwaraeon lleol.
- Llanberis – gosod campfa awyr agored newydd i wella'r ddarpariaeth i blant a theuluoedd.
- Byrddau gwybodaeth mewn lleoliadau cymunedol allweddol, gyda'r nod o rannu gwybodaeth leol a hyrwyddo balchder cymunedol, yn cynnwys ar y Lôn Las yn Bethesda.



5. LleCHI LleNI: Ein Safle Treftadaeth y Byd, Ein Balchder, Ein Dyfodol



Ym mis Medi 2025 roedd prosiect cymunedol y Safle Treftadaeth y Byd, LleCHI LleNI, yn flwydd oed ac yn dathlu diwedd flwyddyn gyntaf llawn bwrlwm. Mae'r prosiect, werth £2 filiwn dros 5 mlynedd (2024-2029), wedi ei ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a phartneriaid. Mae o'n brosiect sy'n canolbwyntio ar bobl, gyda threftadaeth, diwylliant, iaith a chymeriad unigryw ein cymunedau llechi wrth ei galon. Ein nod yw darparu ymgysylltiad i bawb, gan ennyn ymdeimlad cryf o gynefin a balchder lleol yn y dirwedd lechi, gwella lles, darparu cyfleoedd, datblygu sgiliau a hybu'r economi leol. Mae gan y tîm tua 60 o brosiectau, rhai ohonynt yn weithgareddau fydd yn digwydd mwy nag unwaith o fewn y rhaglen, fydd yn cael eu cynnal ar draws chwe chydran y dirwedd llechi a thu hwnt.



Y flwyddyn mewn ffigyrau


Rhwng Medi 2024 a Medi 2025 mae'r prosiect wedi:

- Cynnal a chymryd rhan mewn 48 o ddigwyddiadau i ddathlu ein treftadaeth chwarelyddol, gofalu am y dirwedd, datblygu sgiliau yn ein cymunedau ac i annog llesiant.
- Cynnwys 1,957 o fynychwyr i'n digwyddiadau a gweithgareddau gan gynnwys 1,188 o blant ar draws Gwynedd.
- Dyrannu grantiau werth £117,174 i 21 o grwpiau cymunedol.



Yr Hanes wrth Ein Traed

Un o'r elfennau fwyaf poblogaidd o'r prosiect yw'r teithiau cerdded yn y dirwedd llechi gydag arbenigwyr. Mae'r rhain yn gyfle i droedio'r tir a dysgu am hanes yr ardal.



Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cynnal teithiau cerdded gyda Dr Dafydd Gwyn yn Chwarel Dorothea a Chwmystradllyn; teithiau gyda Gareth Roberts a Menter Fachwen yn Neiniolen a Chlwt y Bont, Cwm-y-glo a Chraig yr Undeb; taith ym Mlaenau Ffestiniog gyda Catrin Roberts i ddysgu am Martha Jones y 'Doctor Dail' oedd yn paratoi moddion i'r chwarelwyr, a thaith yn Llanberis gyda Gwyn Edwards i ddysgu am chwedloniaeth yr ardal. Mae'r teithiau'n gyfle i gydweithio hefo mentrau lleol ac yn aml mae yna gyfle i gefnogi busnesau lleol wrth gael paned a chacen ar hyd y daith. Er mwyn sicrhau hygrychedd, rydym hefyd yn cynnal sgysiau a darlithoedd gan gynnwys darlith am y Streic Fawr ar y cyd efo Menter Iaith Gwynedd ym Mynydd Llandygai, a sgysiau yn Rhiwlas a Llanberis gyda Martin Davies a Gareth Roberts.



"Roedd cyffwrdd a chasglu a blasu yn cysylltu ni i'r dirwedd. Roedd cerdded yn agos i dirwedd llechi a thrafod profiad y gweithwyr yn creu teimlad o gysylltu. Roedd plethu hanes pobl a hanes y dail yn dda."

"Fel person sydd yn dod o ardal chwarelyddol, mi oni yn teimlo yn gartrefol iawn. Ond mae hi yn wastad yn braf cael dysgu am ardaloedd eraill."



Llesiant a Llechi



Un o nodau'r prosiect LleCHI LleNI yw annog llesiant o fewn ein cymunedau drwy dreftadaeth ac wrth ymgolli mewn gweithgaredd a dod ynghyd fel cymuned. Yn ystod hanner cyntaf 2025 bu Grŵp Brodio Bont yn brysur iawn yn creu brodwaith yn seiliedig ar y dirwedd llechi. Bydd y gwaith yn cael ei arddangos ym Mhant Du a Storiol yn 2025 a 2026.

Ym mis Mawrth ac Ebrill, cafodd plant ysgolion cynradd ardal Dyffryn Nantlle gyfle i ddysgu am dechnegau'r ffotograffydd Carwyn Rhys Jones a chreu gwaith eu hunain yn portreadu'r hyn sy'n eu gwneud yn hapus.

Rydym hefyd yn falch iawn i gydweithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar raglen o ddigwyddiadau llesiant gan gynnwys taith meddylgarwch yng Ngwm Pennant yn fis Gorffennaf ac Ysgol Goedwig i blant yn Nyffryn Ogwen ym mis Awst.

Cyrraedd Cynulleidfaoedd

Rydym yn credu'n gryf bod y dynodiad i bawb felly mae'n hollbwysig ein bod yn cyrraedd amrywiaeth o gynulleidfaoedd ar draws y dirwedd llechi a thu hwnt. Braff felly, oedd cydweithio gyda thîm Amgueddfa Lechi Cymru ar arddangosfa deithiol 'Amgueddfa ar y Lôn' wrth i baneli dehongli, creiriau ac ambell i chwarelwr a hanesydd fynd ar grwydr i hybiau cymunedol a digwyddiadau lleol yn chwe chydran y Safle Treftadaeth y Byd rhwng Mehefin a Medi.



Fel rhan o weithgaredd i amlygu hanesion llai amlwg ein treftadaeth, cynhaliwyd noson Llechi'r Enfys ym mis Chwefror, yng nghwmni Mike Parker a Norena Shopland gyda Kristoffer Hughes ac Arwel Gruffydd yn trafod rhywioldeb, rhywedd a thyfu fyny yn y dirwedd llechi.

"Rhaid cael Cymry i dorri'r garreg, nid yw'r graig yn deall Saesneg" **(Dafydd Jones 1803 – 1868)**

Y diwydiant llechi oedd y diwydiant trwm fwyaf Cymraeg yn y DU gyda'r mwyafrif o'r gweithwyr yn ei ddefnyddio. Mae'r iaith Gymraeg yn ganolog i dreftadaeth, diwylliant a hunaniaeth ein dyffrynnoedd llechi ac mae o leiaf 65% o drigolion ein dyffrynnoedd llechi yn siarad Cymraeg heddiw. Mae annog defnydd a dathlu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn greiddiol i brosiect LleCHI LleNI. Ym mis Chwefror cynhaliwyd sesiwn ar gyfer pobl oedd yn newydd i'r ardal neu i'r iaith Gymraeg a chafwyd cyfle am gyflwyniad i'r Gymraeg gyda'r tiwtor Ann Bierd a sesiwn am hanes a chwedloniaeth yr ardal gyda Kristoffer Hughes.

Gŵyl Pêl Droed y Llechi

Roedd caeau chwarae Y Gloddfa Glai, Talysarn yn llawn bwrlwm ym mis Mehefin wrth i dros 200 o blant o rai ardaloedd chwarelyddol Gwynedd ddod ynghyd mewn gŵyl bêl droed arbennig.

Roedd yr ŵyl yn dathlu agoriad swyddogol caeau pêl droed Clwb Pêl Droed Talysarn Celts ar ei newydd wedd, â'r cysylltiad hanesyddol rhwng chwarelwyr y dyffrynnoedd llechi a'r gêm bêl-droed.



Gwelwyd deuddeg ysgol gynradd yn cymryd rhan, gyda chynrychiolaeth o flynyddoedd 5 a 6 yn chwarae mewn twrnament 5 bob ochr. Yn ogystal â'r gemau, roedd pob ysgol wedi paratoi gwybodaeth am ffigwr dylanwadol lleol gyda chysylltiad â'r diwydiant llechi, gyda'r cyfraniadau'n cael eu harddangos yn adeilad y clwb.

Un o uchafbwyntiau'r prawn oedd ymweliad Rhian Wilkinson, rheolwr tîm pêl droed Merched Cymru a ddaeth heibio yn dilyn ei chyhoeddiad o'r garfan bêl droed Merched Cymru ar ben Yr Wyddfa yn gynharach yn y dydd.

"Heb os, mi gafodd y disgyblion a minnau fel staff ddiwrnod bythgofiadwy."



Plant a Phobl Ifanc

Gyda chysylltiadau teuluol a'r profiad byw o'r chwareli yn gwanhau dros amser, mae codi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o'u treftadaeth yn hollbwysig. Rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025 bu Swyddog Prosiect Dysgu a Datblygu Sgiliau LleCHI LleNI yn cynnal gweithdai mewn 12 ysgol gynradd yn y Dirwedd Llechi ar y cyd efo partneriaid. Mae ffilmiau o'r ymweliadau ar gael ar [ein sianel YouTube](#).



Mae'r rapiwr a bît-bocsiwr Cymraeg, Mr Phormula, wedi ymweld â dysgwyr Cymraeg ifanc yn unedau trochi iaith yn ysgolion Tywyn, Tryfan ac Eifionydd er mwyn creu traciau sain yn defnyddio geiriau sy'n gysylltiedig efo dreftadaeth llechi. Yn ogystal, cafwyd sesiwn bywiog gyda Mr Phormula ar faes yr Eisteddfod yn Wrecsam.



Mae adnoddau i blant ac ysgolion ar gael ar wefan Llechi Cymru yn fan hyn: [Barddoniaeth](#), [Caneuon](#), [Lliwio](#), [Mapiau](#).

Ar y Gweill Dros y Cyfnod Nesaf

Dros y misoedd nesaf bydd y tîm yn brysur iawn yn trefnu rhagor o ddigwyddiadau, yn gweithio mewn partneriaeth efo Cwmni Fran Wen ar berfformiadau i amlygu 'Lleisiau Coll' y dirwedd llechi, yn cydweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar raglen o hyfforddiant Sgiliau Traddodiadol, ac yn recriwtio pobl ifanc i gymryd rhan yn y cynllun Llysgenhadon Llechi Ifanc mewn cydweithrediad gyda'r Urdd.

Am ragor o wybodaeth ewch i [Prosiect LleCHI LleNI | LLECHI CYMRU - WALES SLATE](#)



6. Mwynhau Tirwedd Llechi Cymru




Un amcan o'n cynllun rheoli yw sicrhau bod modd i drigolion ac ymwelwyr fwynhau, profi a deall y Safle Treftadaeth y Byd. Mae nifer fawr o weithgareddau Cynllun LleCHI LleNI yn cyfrannu i'r amcan yma, megis teithiau cerdded, gweithgareddau llesiant a'r cynllun llysgenhadon llechi sydd eisoes wedi cael eu crybwyll yn yr adroddiad yma. Isod, mae rhai enghreifftiau pellach o sut rydym yn ymateb i'r cyfleoedd a heriau yn gysylltiedig a mwynhad o'r dirwedd llechi.

Porth a Rhwydwaith Stori

Fel rhan o ailddatblygiad yr Amgueddfa Lechi, rydym yn cydweithio hefo tîm Amgueddfa Cymru i ddatblygu model Porth a Rhwydwaith Stori. Y weledigaeth yw i greu porth ffisegol yn Gilfach Ddu ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd, ac i ddatblygu gwefan www.llechi.cymru ymhellach i fod y porth digidol ar gyfer mynediad i wybodaeth am y dirwedd llechi. Fe fydd y porth ffisegol a digidol yn ategu eu gilydd trwy gynnig gwybodaeth eang am y dirwedd llechi, y statws UNESCO a'n iaith a diwylliant, gyda'r bwriad o godi blas ar bobl sydd yn ymweld a hwy i archwilio'r tirwedd ymhellach a dilyn y stori sydd o ddiddordeb i hwy. Bwriad y model yw i sicrhau budd o'r dynodiad i holl ardaloedd y Safle Treftadaeth y Byd, a'i ddefnyddio fel arf yn yr ymdrech i ledaenu pwysau ymwelwyr oddi wrth yr ardaloedd prysuraf, cynyddu gwybodaeth am y dirwedd ymysg trigolion ac ymwelwyr, ac chyfle i ymestyn y tymor.



© Amgueddfa Cymru



Eryri Mynyddoedd a Môr

Mae gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol Eryri Mynyddoedd a Môr yn rhoi platfform i'r Safle Treftadaeth y Byd fel rhan o gyrchfan Gwynedd ac Eryri, ac mae cyd-weithio gyda hwy yn gyfle i gydweddu gyda blaenoriaethau cenedlaethol Croeso Cymru, a Visit Britain wrth rhedeg ymgyrchoedd a tharged ymwelwyr. Mae cydweithio gyda Eryri Mynyddoedd a Môr wrth gyflwyno ein sesiynau i fusnesau yn gyfle i fynychwyr ddysgu mwy am y dreftadaeth cyfoethog, egwyddorion UNESCO ochr yn ochr a rhannu gwybodaeth am farchnata, marchnadoedd targed a disgwyliadau ymwelwyr, yn ogystal a chyfle i fusnesau ddeall mwy am gael eu cynnwys ar wefan Eryri Mynyddoedd a Môr a bod yn rhan o rhestr digwyddiadau neu ymgyrchoedd. Gellir cael mwy o wybodaeth ar eu gwefan yma.

Teithlenni

Er mwyn annog teithio o gwmpas y dirwedd llechi i ymweld â gwahanol leoliadau mae dewis o dri teithlen ar **wefan Llechi Cymru**, wedi eu creu mewn partneriaeth efo Go North Wales. Mae'r teithlenni yn canolbwyntio ar ardaloedd gwahanol ac ar gyfer amserlenni amrywiol. Mae cynlluniau i greu rhagor o deithlenni fel rhan o brosiect LleCHI LleNI er mwyn annog teithio gwyrdd, dilyn themâu a straeon gwahanol o'r dreftadaeth, cefnogi busnesau lleol ac i geisio hybu twristiaeth yn yr adegau llai prysur o'r flwyddyn er mwyn hybu'r economi leol.



Llwybr Llechi Eryri

I Ymddiriedolaeth **Llwybr Llechi Eryri**, mae'r flwyddyn hon wedi bod yn wirioneddol brysur, gyda'r wardeiniaid yn cerdded y llwybr yn rheolaidd ac yn gwneud mân waith cynnal a chadw. Mae nifer y wardeiniaid wedi cynyddu i 15. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio gydag adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i ariannu gwelliannau mynediad yn Waunfawr a Ffestiniog yn dilyn cwblhau arolwg cynhwysfawr. Gweithiodd yr Ymddiriedolaeth hefyd gyda Phriffyrdd Gwynedd a Chyngor Tref Bethesda i osod byrddau gwybodaeth ym Mhorth Penrhyn a Bethesda, ger meinciau pwrpasol Llwybr Llechi Eryri.


Mae'r grŵp wedi sicrhau cyllid o £1M dros bum mlynedd i archwilio twristiaeth gymunedol yn nyffrynnoedd llechi Gwynedd, gan weithio gydag ardal Conwy yn nyffryn Machno, ac i ddatblygu prosiectau hirdymor sy'n hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy o amgylch y Llwybr.



Mwynhad Cyfrifol o'r Dirwedd Llechi

Un o blaenoriaethau yw annog mwynhad cyfrifol o'r Safle Treftadaeth y Byd, ac ennyn parch tuag at ein cymunedau, iaith a diwylliant. Mae hon yn dirwedd fyw, a gofynnwn i'r rhai sy'n dod yma barchu cymunedau lleol a dymuniadau tirfeddianwyr, a pharchu ein tirwedd hanesyddol arbennig.

Rydym wedi bod yn cydweithio gyda Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar ymgyrch ymweld yn ddiogel trwy greu ffilmiau gwybodaeth byr i fynd allan ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llechi Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri yn pwysleisio pwysigrwydd ymweld yn gyfrifol a pharatoi o flaen llaw. Gellir gweld enghraifft o un o'r ffilmiau **yma**.



Mae gennym ymgyrch barhaol yn cydweithio gyda Mentro'n Gall er mwyn rheadru negeseuon ymweld yn gyfrifol ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, trwy rannu negeseuon am baratoi cyn ymweld, parchu'r dirwedd, ei phobl a'r iaith ac i fod yn ymwybodol o'r heriau all wynebu ymwelwyr yng nghefn gwlad Cymru.



Ar Facebook mae asedau unigol yn ein ymgyrch diogelwch wedi derbyn dros 1,300 o wylwyr. 1,131 o wylwyr ar Instagram.

Crynodeb Cyfryngau Cymdeithasol Llechi Cymru, Hydref 2024 - Medi 2025

Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf, mae wedi bod yn gyfnod llawn twf a llwyddiant ar draws holl blatfformau cyfryngau cymdeithasol Llechi Cymru. Mae ein presenoldeb ar Facebook ac Instagram wedi parhau i fynd o nerth i nerth, gyda chynnydd sylweddol mewn cyrhaeddiad, ymgysylltiad a dilynwyr, gan adlewyrchu'r diddordeb cynyddol yn straeon a threftadaeth ein tirwedd lechi. Yn ogystal, eleni gwelwyd lansiad ein presenoldeb ar Bluesky, platfform newydd cyffrous sy'n cynnig cyfleoedd pellach i Llechi Cymru estyn at gynulleidfaoedd newydd a datblygu ein llais digidol. Mae'r canlyniadau'n dangos blwyddyn gadarnhaol iawn i'r brand ar-lein, gan osod sylfaen gref ar gyfer parhau â'r twf hwn yn y flwyddyn i ddod.



© AS Photography



Ar **Facebook**, y post a gafodd y cyrhaeddiad gorau oedd "Troedio'r Tir: Taith Gerdded Cwmystradllyn", a gafodd ei rannu 21 gwaith ac ymddangosodd mewn sawl grŵp lleol. Y post mwyaf poblogaidd o ran ymgysylltiad oedd reel hyrwyddo Sgwrs Amgueddfa ar y Lôn gyda Dr Dafydd Gwyn yn Nhŷddyn Mawr.

Y cynnwys mwyaf llwyddiannus ar **Instagram** oedd y pyst am gelf gyhoeddus yn **Nhywyn a Phorthmadog**.

Dilynwch ni ar @llechicymru ar y cyfryngau cymdeithasol i wybod mwy.

Facebook



Cynnwys: 250 stori, 199 post
Gwelediadau (Views): 603.9K (597.2K organig + 6.7K ads)
Cyrhaeddiad (Reach): 71.5K (+96.9%)
Ymgysylltiad (Content interaction): 8.9K (+144.8K)
Dilynwyr: 4,408 (+9.4%)
Post cyrhaeddiad gorau: Troedio'r Tir: Taith Gerdded Cwmystardllyn

Instagram



Cynnwys: 331 stori, 138 post grid
Gwelediadau (Views): 71.6K
Cyrhaeddiad (Reach): 22.7K (+5.6%)
Dilynwyr: 1,569 (+60%)
Cynnwys mwyaf llwyddiannus: celf gyhoeddus Tywyn a Phorthmadog

Llysgenhadon Llechi

Mae modd i unigolion ddysgu mwy am y dirwedd llechi, y statws UNESCO a'r Safle Treftadaeth y Byd trwy gwblhau modiwlau penodol o fewn rhaglenni **Llysgennad Gwynedd** a **Llysgennad Eryri**.

Rydym hefyd yn cynnal sesiynau gwybodaeth i fusnesau, mae dau sesiwn peilot eisoes wedi eu cynnal, a'r sesiwn cyhoeddus cyntaf wedi ei gynllunio ar gyfer y flwyddyn newydd. Mae gwahoddiad i unrhyw fusnes sydd â diddordeb dysgu mwy am y Safle Treftadaeth y Byd a'i arwyddocâd i fynychu un o'r sesiynau, gyda'r gobaith y bydd hynny sydd yn cael ei ddysgu yn y sesiwn wedyn yn medru cael ei rannu â chwsmeriaid, cydweithwyr a chymdogion er mwyn lledaenu'r neges am bwysigrwydd a hynodrwydd ein tirwedd llechi.

Digwyddiadau

Mae nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus wedi eu cynnal dros y flwyddyn diwethaf, dyma rhai enghreifftiau:

Sgwrs Dr Dafydd Gwyn yng Nghwmystradllyn ac y cyd a'r Amgueddfa Lechi fel rhan o daith Amgueddfa ar y Lôn:




Gweithdy celf efo'r artist Jwls Williams yn Barics Nantlle:



Panel trafod a gweithgareddau i blant fel rhan o Wyl Hanes Bangor 2025:



Gweithdy Thematig i drafod dehongli:



Gweithdy creadigol i deuluoedd yn Chwarel Llanfair efo Mair Tomos Ifans:



Un digwyddiad arbennig iawn oedd cynnal darlith teimladwy a phwerus Dafydd Wigley am frwydr iawndal llwch y chwarelwyr yn Yr Aelwyd, Blaenau Ffestiniog:



Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035

Mae Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 wedi parhau i weithredu eu cynlluniau er mwyn cefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal. Mae sylw penodol wedi ei roi i geisio ymateb i flaenoriaethau lleol, gwelliannau i is-adeiledd, trafnidiaeth cynaliadwy, cynlluniau gwirfoddoli a llysgenhadon Gwynedd ac Eryri yn ogystal â ymgyrchoedd cyfathrebu a marchnata i annog ymwelwyr i barchu'r ardal a pharatoi cyn ymweld.

Mae cyd-weithio agos yn parhau rhwng timau Llechi Cymru a Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau Cyngor Gwynedd.

Mae gwybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau'r Bartneriaeth i'w gweld [yma](#).

Arolwg Trigolion

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal arolwg twristiaeth ar gyfer trigolion y sir yn flynyddol, er mwyn deall barn cymunedau lleol ar dwristiaeth yn well, holwyd os oedd safle treftadaeth yn berthnasol i'w cymuned nhw iddynt ateb rhai cwestiynau am effaith y safle treftadaeth.

Roedd canfyddiadau yr arolwg cyntaf yn 2024 yn nodi:

Tabl 11 : Pan yn ystyried eich cymuned, ydych chi'n credu fod y Safle Treftadaeth y Byd wedi:

	Ydi	Ychydig	Nac ydi
Creu bwrlwm a balchder ychwanegol ymysg trigolion	39.8%	33.8%	26.3%
Cynyddu'r nifer sydd yn ymweld	42.0%	36%	22.3%
Creu heriau o ran isadeiledd	19.9%	26.4%	53.7%

I'r rhai atebodd (ydi neu ychydig) bod Safle Treftadaeth y Byd yn achosi heriau o ran isadeiledd, holwyd hwy pa fath o heriau oedd rhain. Bu i 486 ymatebydd ateb "ydi" neu "ychydig" ac o rhain roedd 88.1% yn credu bod heriau o ran parcio, 66.7% heriau o ran sbwriel a 26.5% o ran difrod neu fandaliaeth.

Mae'n galonogol gweld fod mwyafrif o'r ymatebwyr yn gweld y Safle Treftadaeth y Byd fel rhywbeth positif sydd yn creu bwrlwm a balchder yn lleol. O ran yr heriau, rydym yn ceisio canfod datrysiadau neu ddulliau lliniaru er mwyn lleihau'r effaith ar drigolion. Mae arolwg 2025 wedi ei gynnal, ac rydym yn disgwyl y canlyniadau.



7. Dysgu am Dirwedd Llechi Cymru

Amcan allweddol yw sicrhau bod y Safle Treftadaeth y Byd yn ganolbwynt ar gyfer dysgu ac ymchwil a rennir, i feithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o werthoedd a phriodweddau'r dirwedd hon, ac addysgu trigolion ac ymwelwyr o hynodrwydd ein ardal arbennig.

Is-grŵp Addysg

Yn dilyn y galw gan bartneriaid drwy Is-grŵp Buddion y Safle Treftadaeth y Byd, rydym wedi sefydlu Is-grŵp Addysg. Pwrpas y grŵp yw i ddod â phartneriaid y Safle Treftadaeth y Byd ynghyd i rannu gwybodaeth ac adnoddau, hwyluso cyfleoedd i gydweithio, sicrhau cysondeb, osgoi dyblygu a meddwl yn strategol am y maes addysg ar draws y Safle Treftadaeth y Byd. Mae capasiti yn her i nifer ohonom yn y sector treftadaeth a'r gobaith yw y bydd aelodau'r grŵp yn gallu cydweithio ar weithgareddau, cefnogi ei gilydd a cheisio am nawdd am brosiectau yn y maes yma ar y cyd.



Gweithdai Ysgolion Cynradd

Rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025 bu Swyddog Dysgu a Datblygu Sgiliau LleCHI LleNI, Ffion Gwyn, yn cydlynw ac arwain sesiynau mewn deuddeg ysgol yng nghydrannau 5, 1 a 2 ar y cyd efo'r Gwasanaeth Addysg Archifau, yr Amgueddfa Lechi a phartneriaid lleol. Yn ardal Porthmadog roedd Llechen Lan (cwmni toi lleol) wedi darparu sesiynau oedd yn rhoi'r cyfle i'r plant drin llechi oedd wir yn dod a'r dreftadaeth yn fyw. Mae'r caneuon mae Ffion wedi cyfansoddi wedi bod yn boblogaidd iawn efo'r plant. Gweler esiamplau o'r gwaith mae'r plant wedi bod yn ei wneud yn y ffilmiau yn fan hyn:

Ysgol Cefn Coch (cliciwch)



Ysgol Borth y Gest (cliciwch)



Cynllun Llysgenhadon Ifanc

Rydym yn brysur iawn yn recriwtio pobol ifanc rhwng 13-16 oed sy'n byw yng Ngwynedd i fod yn Lysgenhadon Llechi Ifanc. Bydd cyfle i ddysgu mwy am eu hanes a threftadaeth, cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, gweithdai creadigol, cwrdd â phobol newydd, a datblygu sgiliau. Cynhelir yr holl weithgareddau o fewn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru unwaith y mis. Bydd cludiant wedi ei drefnu, a phob gweithgaredd yn rhad ac am ddim dan ofal Gwasanaeth Awyr Agored yr Urdd a thîm Llechi Cymru.

Mae'n gyfle da iawn i'r rheini sy'n meddwl am yrfa mewn sectorau megis yr amgylchedd, treftadaeth, twristiaeth, chwaraeon, hanes, hamdden. Mae'r cynllun yn darparu cyfleoedd i gael profiadau newydd, a gall gyfrannu i oriau gwirfoddoli neu gyfranogiad cymunedol ar gyrsiau megis Y Fagloriaeth Gymraeg.

I ganfod mwy gwylwch **y ffilm fer hon**:



Gweithgareddau awyr agored, ymweliadau, gweithdai, profiad gwaith, cyfranogiad cymunedol, siaradwyr gwadd.




Prifysgol Bangor

Adran Hanes Treftadaeth ac Archaeoleg

Mae'r dirwedd llechi wedi bod yn amhrisiadwy i MA Prifysgol Bangor mewn Treftadaeth Fyd-eang, gan gynnig cyfle unigryw i fyfyrwyr ymgysylltu'n uniongyrchol â Safle Treftadaeth y Byd ar garreg drws y brifysgol. Mae'r adnodd eithriadol hwn yn darparu profiad ymarferol mewn treftadaeth ac archaeoleg, gan ymgorffori gwaith maes ymarferol a dysgu ar safle yn ein haddysgu ar lefelau israddedig ac ôl-raddedig. Mae'r dirwedd llechi wedi'i hymgorffori drwy gydol ein cwricwlwm, lle mae'n gwasanaethu fel man cychwyn ar gyfer astudiaethau treftadaeth fyd-eang - gan ddefnyddio'r lleol i oleuo'r byd-eang. Rydym hefyd wedi bod yn ffodus i groesawu siaradwyr gwadd o bob cwr o gymuned Llechi Cymru, y mae eu cyfraniadau'n rhoi mewnwelediadau a safbwyntiau amhrisiadwy o'r byd go iawn i'n myfyrwyr ac ymchwilwyr.

Mae arwyddocâd y dirwedd yn ymestyn y tu hwnt i raglenni gradd ffurfiol. Rydym wedi gweld mwy o ddiddordeb gan y gymuned leol, gyda'r safle bellach yn rhan o'n cyrsiau byr addysg oedolion.

Project Dorothea



Delweddau: © Prifysgol Bangor



Mae Dorothea Pumped Hydro a Phrifysgol Bangor yn parhau i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth hirdymor i gyflawni Project Dorothea. Eleni, mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar gofnodi archaeolegol, cadwraeth treftadaeth ddiwydiannol, ymgysylltu cymunedol, a datblygu sgiliau i fyfyrwyr. Prif ffocws y gweithgaredd oedd y sied dorri llechi, heneb gofrestredig a rhan o Safle Treftadaeth y Byd. Cofnodwyd y strwythur yn archaeolegol gan dîm cyfun o fyfyrwyr Prifysgol Bangor ac, am y tro cyntaf, cyn-filwyr a gymerodd ran drwy fenter Boots on the Ground Alabaré. Rhoddodd eu cyfranogiad gyfle gwerthfawr i ennill profiad treftadaeth ymarferol, cryfhau CVs, a datblygu sgiliau ymarferol yng nghyd-destun unigryw y dirwedd llechi.

Mae Project Dorothea hefyd wedi bod yn ymgysylltu â'r cyhoedd trwy deithiau tywys o'r safle.



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



8. Gwybodaeth Bellach



Ar gyfer y wybodaeth diweddaraf, dilynwch ni ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol:



Mae diweddariadau chwarterol yn cael eu paratoi er mwyn rhannu gwybodaeth hefo budd-ddeiliaid am yr hyn sydd wedi digwydd dros y misoedd blaenorol, gellir gweld rhain ar **ein gwefan yma**.

Cyfeiriad e-bost: **llechi@gwynedd.llyw.cymru**.

Gwefan: **www.llechi.cymru**

Diolch

Diolch i'n holl bartneriaid a phawb sydd wedi bod yn rhan o waith Llechi Cymru dros y flwyddyn diwethaf, rydym yn edrych ymlaen i barhau i gydweithio gyda chi dros y cyfnod nesaf, a pharhau i ddathlu a rhannu ein tirwedd arbennig gyda'n cymunedau, busnesau, ymwelwyr a'r byd.





DATHLU'R DIRWEDD

llechi

CELEBRATING
THE

late
LANDSCAPE